# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Mehefin 2019

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru: sesiwn dystiolaeth gyda Dr Elin Jones

(09.30 - 10.15) (Tudalennau 1 - 18)

Dr Elin Jones

## 3 Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru: sesiwn dystiolaeth gydag ymarferwyr

(10.15-11.00) (Tudalennau 19 - 32)

Mark Cleverley, Athro Hanes, Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)

Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, UCAC

## 4 Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru: sesiwn dystiolaeth gyda grwpiau sydd â diddordeb yn hanes Cymru

(11.00-11.45) (Tudalennau 33 - 48)

Gareth Jones, Ysgrifennydd - Cymdeithas Owain Glyndŵr

Eryl Owain, Cydgysylltydd - Ymgyrch Hanes Cymru

Wyn Thomas, cyn-bennaeth Adran Hanes, cyn-bennaeth Ysgol Uwchradd ac Aelod o Fwrdd Dyfodol i'r Iaith

## 5 Addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru: sesiwn dystiolaeth gyda grwpiau hanes amrywiaeth

(11.45-12.30)

Uzo Iwobi, Prif Weithredwr Race Council Cymru

Ginger Wiegand, Arweinydd Polisi ac Ymchwil Cymru Gyfan – Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru

Gaynor Legall, Cadeirydd y Gyfnewidfa Treftadaeth a Diwylliant

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth â Ken MacQuarrie, Cyfarwyddwr Gwledydd a Rhanbarthau'r DU, y BBC, ynghylch gofynion Ofcom ar gyfer cynnwys radio

(Tudalennau 49 - 52)

### 6.2 Gohebiaeth oddi wrth Band Arian Crosskeys ynghylch y gofyniad am drwyddedau ar gyfer perfformwyr sy'n blant

(Tudalennau 53 - 54)

### 6.3 Gohebiaeth oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(Tudalennau 55 - 58)

### 6.4 Gohebiaeth â Phrif Weithredwr S4C ynghylch y newidiadau arfaethedig i amserlen S4C

(Tudalennau 59 - 73)

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 8 Ôl-drafodaeth breifat

(12.30-12.45)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Tystiolaeth Ysgrifenedig ar gyfer 26 Mehefin

**Cyfleoedd a gynigir gan y cwricwlwm newydd i ddysgu hanes**

1. **Annibynniaeth athrawon**. Bydd rhyddid gan athrawon i lunio cyrsiau hyblyg fydd yn unigryw i'r ysgol ac yn cwrdd ag anghenion a diddordebau eu disgyblion, a hynny ar draws pynciau traddodiadol y Dyniaethau, sef Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth a Hanes, ond hefyd dau bwnc newydd, sef Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol.
2. **Perthnasedd**. Bydd modd adlewyrchu materion cyfoes yn y cyrsiau hyn, ac i ystyried fel y mae ffactorau crefyddol, daearyddol a hanesyddol yn effeithio ar ei gilydd ac ar fusnes a chymdeithas.
3. ***Cynefin***. Rhydd y cysyniad o *gynefin* ffocws a phwrpas i gyrsiau newydd ysgolion. Dyma gyfle i roi sylfaen gadarn o berthyn i bobl ifanc. Gallai eu cynorthwyo i edrych allan ar y byd o'u cwmpas, a deall sut y cyfrannodd eu cynefin i ddatblygiad Cymru a'r byd ehangach, a sut effeithiodd y byd hwnnw ar Gymru a'u bro eu hun.
4. **Sgiliau.** Ceir pwyslais priodol ar sgiliau'r pynciau unigol (megis ymholi, dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth), a rhydd strwythur y cwricwlwm newydd gyfleoedd i'w hymarfer ar draws ystod o bynciau, a'u cymhwyso i gyd-destunau newydd.
5. **Yr iaith Gymraeg**. Rhydd y cwricwlwm newydd bwysigrwydd i'r iaith Gymraeg, a cheir cyfleoedd ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau i gyfoethogi astudiaeth o'r iaith trwy ei gosod yn ei chyd-destun crefyddol, cymdeithasol, daearyddol a hanesyddol.Gall dysgwyr ystyried y rhesymau dros ei pharhad a thrafod goblygiadau bod yn wlad ddwyieithog/amlieithog heddiw.

**Heriau a wynebir wrth weithredu'r cwricwlwm newydd**

1. **Ymarferoldeb.** Mae'r dogfennau swmpus a gyhoeddwyd yn tystiolaethu i'r gwaith manwl a thrylwyr a wnaed dros y blynyddoedd ers cyhoeddi *Dyfodol Llwyddiannus.* Ond yn eu swmp a'u manylder maent yn boenus o debyg i ddrafftiau cyntaf y Cwricwlwm Cenedlaethol gwreiddiol ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Profodd y cwricwlwm hwnnw yn rhy anhylaw i'w weithredu, a bu'n rhaid ei symleiddio a'i leihau yn sylweddol ystod y blynyddoedd canlynol.
2. **Tensiwn rhwng rhyddid athrawon a barn y cyhoedd.** Ein tuedd ni wrth ddysgu yw cadw at yr hyn sy'n gyfarwydd, yn ddiogel ac yn apelio at ein cynulleidfa. Mae gan arholiadau TGAU a TAU ddylanwad ar gynlluniau gwaith yr ysgol uwchradd hefyd. Mae awydd naturiol gan athrawon i ddarparu gwaith a phrofiadau fydd yn cynorthwyo ymgeiswyr i lwyddo yn yr arholiadau hynny. Yn fy marn i, fe fydd angen arweiniad cadarn a chlir ar athrawon wrth iddynt geisio gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd angen i'r arweiniad egluro posibiliadau'r cwricwlwm newydd yn hytrach na dangos un ffordd yn unig o ddehongli'r cwricwlwm a'i ddysgu. Ond a fyddai darparu arweiniad o'r math yn tanseilio'r egwyddor o roi annibynniaeth i athrawon lunio eu cyrsiau eu hun?
3. **Anhawsterau presennol**. Roedd lle canolog ac amlwg i hanes Cymru yn y Rhaglen Astudio yn yr hen gwricwlwm, ond nid yw strwythur y cwricwlwm drafft yn rhoi yr un statws iddo. Mae'r feirniadaeth a geir ar ddiffyg hanes Cymru yn ein hysgolion yn adlewyrchu profiadau rhai gafodd eu haddysg trwy gyfrwng y cwricwlwm blaenorol. Os nag oedd hanes Cymru yn cael y sylw sy'n briodol iddo yr adeg honno, pa obaith fydd ganddynt i'r dyfodol?

**Pryderon**

1. **Prinder tystiolaeth ar gyfer trafodaeth**. Mae lle hanes Cymru yn y cwricwlwm ysgol wedi datblygu'n destun trafodaeth cyhoeddus yn ddiweddar, sydd yn rhywbeth cymharol newydd yn fy mhrofiad i. Ond hyd y gwn i does dim arolwg annibynnol wedi ei wneud o'r hyn a ddysgir ers ugain mlynedd o leiaf. O ganlyniad, ymddengys fod y drafodaeth ar hyn o bryd yn cael ei seilio ar brofiadau a safbwyntiau personol unigolion a diddordebau gwahanol fudiadau. O ystyried y teimladau cryf a fynegir ar adegau, a'r agweddau gwleidyddol i'r drafodaeth, mae mawr angen awdit gwrthrychol o'r hanes a ddysgir ar hyn o bryd. Byddai modd defnyddio'r wybodaeth sydd gan Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru o'r opsiynau a ddewisir ar gyfer TGAU a TAU fel man cychwyn. CBAC hefyd oedd yn gyfrifol am arolwg a wnaethpwyd rhwng 2007 -2011 o asesiadau mewnol ysgolion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Bues i'n gweithio gyda thîm o athrawon pwnc i safoni'r gwaith enghreiffftiol a gyflwynwyd ar gyfer hanes. Dwi ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd i'r adroddiadau a baratowyd ar y pryd, ond cofiaf lunio llythyr i'w anfon at yr ysgolion hynny oedd heb gyflwyno unrhyw enghreifftiau o waith ar rai agweddau craidd o'r Rhaglen Astudio, megis hanes Cymru.
2. **Peryglon dadl seiliedig ar brinder tystiolaeth dibynadwy**. Mae datblygiad a dylanwad y cyfryngau torfol yn dangos peryglon dadleuon a seilir ar emosiwn a rhagfarn. Ofnaf y gallai'r drafodaeth bresennol fod yn niweidiol i gymdeithas os nag oes tystiolaeth gwrthrychol ar gael i ategu datganiadau.

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Addysgu hanes a diwylliant Cymru yn y cwricwlwm newydd

Mis Mehefin 2019

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

## Addysgu hanes a diwylliant Cymru yn y cwricwlwm newydd

Croesawa UCAC y cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar Addysgu Hanes a Diwylliant Cymru yn y Cwricwlwm Newydd.

Mae UCAC yn undeb sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol, tiwtoriaid a darlithwyr ym mhob sector addysg ledled Cymru.

**1. A fydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i addysgu hanes a diwylliant Cymru o safbwynt Cymru?**

1.1. Mae UCAC o'r farn bod y Cwricwlwm newydd yn sicr yn cynyddu'r cyfleoedd i addysgu hanes a diwylliant Cymru. Drwy roi ffocws ar y 'lleol, Cymru a'r byd ehangach' yn anad dim byd arall mae'r *disgwyliad i wneud hynny'n* glir.

1.2. Tra bod y cyfle yno, mae yna bryder am allu a pharodrwydd pob athro i wneud hyn o 'safbwynt Cymru'. Fel mae un o'n haelodau wedi nodi:

*"Dydw i ddim yn siŵr am 'o safbwynt Cymru' oherwydd nid yw pob athro Hanes yn Gymro. Nid yw'r cyrsiau hyfforddi athrawon (o fy mhrofiad i) yn talu sylw i 'ddysgu' Hanes o safbwynt Cymru. Mae rhai ysgolion yn dysgu Jack the Ripper, Manceinion yn lle Merthyr o ran Chwyldro Diwydiannol ayyb*."

1.3. Rhaid ategu yn ogystal, nad yw pob athro ag arbenigedd yn Hanes Cymru, nad ydynt wedi astudio hanes eu gwlad wrth fynd i brifysgolion dros y ffin a'u bod yn anghyfforddus/amharod i addysgu agweddau helaeth ohono i ddisgyblion. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y 'tocenisitiaeth' sydd ym manylebau CBAC ar hyn o bryd.

1.4. Mae angen llawer o hyfforddiant ar athrawon fel eu bod yn ddigon hyderus a mentrus, a diogonedd o gyfleoedd i rannu arfer dda ac adnoddau.

1.5. Ymhellach, mae gofid bod modd dehongli'r term 'cenedlaethol', sy'n cael ei ddefnyddio'n achlysurol, mewn sawl ffordd wahanol.

**2. Pa gyfleoedd fydd y cwricwlwm newydd yn eu cynnig ar gyfer addysgu hanes lleol a chenedlaethol Cymru?**

2.1. Rydym fel Undeb yn hapus o weld bod cyfleoedd amlwg yn y cwricwlwm newydd i addysgu hanes lleol a chenedlaethol; mae'r ddeubeth yn amlwg yn greiddiol i'r Maes Dysgu a Phrofiad. Yng ngeiriau un aelod:

*"Mi fydd paratoi ac addysgu gwersi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn bleser. Byddaf yn falch o fedru anwybyddu gwragedd Harri'r VIII ac anghofio am yr angen i barhau â myth Churchill 'yr arwr'. Edrychaf ymlaen yn fawr at roi'r lleol a Chymru'n ganolog i'n hanes."*

2.2. Croesawir y pwyslais ar yr hyn sy'n lleol a'r anogaeth i ymweld.

2.3. Bydd cyfleoedd amlwg i gynnig 'Stori Cymru'.

2.4. O achub ar arbenigedd yr athrawon hynny sy'n brofiadol yn y maes, mae cyfleoedd amlwg. Mae aelodau UCAC ar hyn o bryd yn magu cysylltiadau rhwng ysgolion ac yn dechrau cyd-weithio ar brosiectau ysgol i ysgol. Er enghraifft, mae un adran Hanes yn y De-ddwyrain yn dechrau cyd-weithio ag adran Hanes yn ardal lechi'r Gogledd-orllewin. Wrth ganolbwyntio ar eu diwydiannau lleol, y bwriad yw

"*bod y dysgwyr yn yr ysgolion gwahanol yn gyfrifol am baratoi adnoddau i addysgu ysgol arall – efallai arwain teithiau tywys i'w gilydd – hyn yn hanes lleol a chenedlaethol."*

2.5. Mae'r Cwricwlwm newydd yn rhoi'r cyfle a'r her i ddatblygu gwaith mewn clystyrau a chryfhau'r cyswllt cynradd/uwchradd yn ogystal. Mae'n allweddol bod yr elfennau hanesyddol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, gan adeiladu ar arbenigedd unigolion, i blant 3 i 16 a hynny mewn ffordd gydnaws.

2.6. Er hyn, rydym yn bryderus am y capasiti presennol, ac mewn rhai achosion yr awydd, i fanteisio ar y cyfleoedd.

2.7. Credwn fod angen sicrhau fod y disgwyliadau yn cael eu gwneud yn gwbl glir i athrawon, a bod disgwyl i bob ysgol fod yn llwyr ymwybodol o'u dyletswydd i wneud hyn yn effeithiol.

2.8. Ymhellach i hynny, mae UCAC o'r farn bod angen gosod rhyw fecanwaith yn ei le sy'n golygu nad oes modd 'anwybyddu' y pwyslais a'r disgwyliadau newydd – tra'n parchu'r rhyddid a hyblygrwydd newydd a ddaw yn sgil y cwricwlwm. Gallai hynny fod trwy arolygiadau, neu weithdrefnau atebolrwydd eraill.

2.9. Gan fod y Maes Dysgu a Phrofiad mor eang, mae peryg i'r arbenigedd hanesyddol gael ei golli, un peth yw cyflwyno 'Stori Cymru', peth arall yw sicrhau fod elfennau'r ddisgyblaeth 'Hanes' yn cael eu meithrin. Mae'n bosib iawn y byddwn yn wynebu sefyllfa lle nad oes arbenigwyr yn y sector uwchradd fydd yn gallu trosglwyddo'r hanfodion.

2.10. Mae angen sicrhau nad yw'r cwricwlwm yn syrthio i'r un fagl â'r manylebau TGAU a Safon Uwch presennol sy'n caniatáu 'tocenistiaeth'. Rhaid sicrhau nad Hanes Prydain hefo rhyw ychydig o gyd-destun Cymreig sy'n cael ei gynnig, ond hanes sydd yn cael ei hadrodd o *bersbectif Cymreig*, hefo Cymru'n ganolog.

2.11. Mae UCAC o'r farn bod yr her o ddatblygu'r Cwricwlwm yn ddeublyg i haneswyr yn y sector uwchradd. Yn y lle cyntaf, y newid i arferiad addysgol ac addysgeg, ond hefyd, yr uwch-sgilio sy'n angenrheidiol er mwyn gallu adnabod a gweithredu'r cyfleoedd. Mae'n anorfod y bydd cost i hyn ac mae'n allweddol bod digon o amser yn cael ei roi er mwyn sicrhau'r uwch-sgilio. Bydd angen amser i ymchwilio, gan fod pryderon am ba mor dda yw gwybodaeth athrawon o 'hanes lleol' ( a 'Chymreig')go iawn. Yn ogystal, prin iawn y rhoddir sylw i hyn ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ar hyn o bryd.

**3.** Her ychwanegol – ac un a fydd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad cyson o ran amser – yw'r un o gyd-gynllunio rhwng athrawon ar draws y cwricwlwm, ac i raddau ar draws yr ystodau oedran, a hynny er mwyn sicrhau bod Hanes/Stori/diwylliant Cymru'n cael sylw cyson ledled y cwricwlwm ( o ran Meysydd Dysgu a Phrofiad ac o ran oedran) ond gan osgoi dyblygu.

**4. Ym mha ffordd, os o gwbl, y bydd athrawon yn cael eu cyfyngu wrth addysgu hanes a diwylliant Cymru?**

4.1. **Gan ddiffyg profiad ac arbenigedd:**

4.1.1. Mae diffyg hyfforddiant ac adnoddau addas yn ofid ar hyn o bryd o ran y cyfyngiadau yn y gweithlu presennol. Wrth ddeall fod y pwyslais ar ddatblygu cynhenid, oherwydd diffyg arbenigedd (athrawon nad ydynt yn haneswyr yn addysgu'r pwnc a haneswyr nad ydynt wedi'u trwytho yn hanes y wlad), mae angen buddsoddiad mawr o ran amser ac arian i sicrhau bod yr athrawon wedi eu hyfforddi'n ddigonol. Eto, mae arfer dda iawn i weld mewn sawl ysgol – ond nid dyma'r norm.

4.1.2. Er bod meddylfryd gwahanol i raddau yn ein hysgolion Cymraeg, mae athrawon Hanes yn dueddol o fod yn awyddus i weld llwybr addysgol clir drwy amrywiaeth o adnoddau pwrpasol. Yn amlwg, nid yw'r math yma o addysgu o reidrwydd yn gydnaws ag ysbryd y cwricwlwm newydd. Hyn a hyn o adnoddau addas sydd yna i addysgu Hanes Cymru, er bod pethau'n raddol wella. Yn sicr, bydd rhai yn gweld hyn yn gyfyngiad. O gofio y bydd nifer yn gweld rhoi Hanes Cymru yn ganolog i'r cwricwlwm yn newid chwyldroadol, efallai bydd angen ystyried cefnogi'r athrawon hyn drwy roi pwyslais ar adnoddau addas, Cymru-ganolog. Yn sicr, byddai hyn yn arbennig o wir wrth ystyried unrhyw newid i fanyleb cymwysterau.

4.2. **Gan y diffyg cyfle i roi ffocws ar Hanes y tu allan i Gymru:**

4.2.1. Bydd rhai yn dadlau na fydd y disgyblion yn dysgu am yr hyn sy'n digwydd y tu allan i Gymru – fel taleithiau'r De UDA efo Jonny Scopes ac esblygiad, neu bwysigrwydd y profiad 'Prydeinig' Brecsitaidd. Bydd rhai'n gwneud cyhuddiadau ein bod yn culhau'r Cwricwlwm, ac yn ei wneud yn anneniadol.

4.2.2. Byddai UCAC yn anghytuno â hyn. Yn wir, rydym o’r farn bod angen ehangu’r cwricwlwm presennol fel ein bod yn rhoi byd olwg rhyngwladol i’n plant. Bu i newidiadau Gove yn Lloegr roi cymwysterau Hanes yn eu lle oedd yn mynnu ein bod yn edrych ar elfennau o Hanes Prydain mewn ffordd gul. Yn anffodus, bu i Gymru ddilyn i raddau helaeth, fel na fyddai’n cymwysterau’n cael eu gweld yn israddol, gan roi ambell i enghraifft o Gymru/Cymreig yn y manylebau yng Nghymru, fel na fyddai raid i haneswyr yng Nghymru boeni’n ormodol am brofiad y tu hwnt i’r hyn yr oeddynt yn gyfarwydd ag e ac adnoddau na fyddai’n addas i’n cymwysterau.

4.2.3. Rydym o’r farn y byddai rhoi ffocws ar y lleol a Chymru o fewn cyd-destun rhyngwladol yn sicrhau bod ein dinasyddion ifanc yn ehangu eu gorwelion mewn ffordd eithriadol o fuddiol, a chwbl cydnaws â Phedwar Diben y cwricwlwm.

*“Dylai athrawon, os ydynt yn dysgu o safbwynt Cymru fod yn meddwl am Gymru o fewn cyd-destun rhyngwladol. Anodd peidio.”*

4.3. **Gan fethiant y gymdeithas yng Nghymru i ddatblygu gwasg a chyfryngau sy’n rhoi Cymru’n gyntaf**:

4.3.1. Y broblem yw bod newyddion ‘rhwydwaith’ (hynny yw ‘Cymru a Lloegr’, ond mewn gwirionedd heb prin sylw i Gymru) yn dod yn gyntaf ar y BBC gyda newyddion Cymru’n dilyn. Yn wahanol i’r Alban hefyd, does gan Gymru ddim papur newydd cenedlaethol i Gymru ac nid yw papurau Llundeinig yn rhoi prin dim sylw i Gymru ‘chwaith.

4.4. **Gan fethiant y gymuned sifil i gyfleu'r hunaniaeth Gymreig:**

4.4.1. Mae hyn, wrth gwrs, yn gysylltiedig â 3.3 uchod. Mae’r sefyllfa wedi gwella yn yr ugain mlynedd diwethaf, ond eto, nid yw Cymru wedi aeddfedu’n ddigonol fel nad oes cwestiynu o’r endid fel uned hyfyw. Mae rhoi Cymru mewn lle eilradd yn norm.

4.4.2. Rhaid addysgu’r genedl, fel mae’r wladwriaeth Brydeinig wedi gwneud ers canrifoedd. Wrth dderbyn bod angen cydnabod yr hyn sydd yn ein gwneud yn debyg i wledydd eraill, rhaid hefyd dathlu’r gwahaniaethau a’r hyn sydd yn ein gwneud yn unigryw. Mae’n rhaid parhau i gyflwyno hanes, stori a diwylliant Cymru i’r genedl gyfan, nid i ddisgyblion yn unig.

4.4.3. Mae’r profiad Albanaidd yn ddadlennol yn hyn o beth. Crëwyd Amgueddfa Genedlaethol yr Alban yn 2006. Mae stori’r Alban yn cael ei chyfleu’n hynod effeithiol drwy arteffactau, ond yn eistedd ochr yn ochr â’r canolbwynt Albanaidd mae arddangosfeydd rhyngwladol eu naws.

4.5. **Gan gyfundrefn addysgol sydd â phwyslais ar atebolrwydd, a chymwysterau na fyddent o bosib yn cydnabod y newid pwyslais i roi Cymru’n gyntaf.**

4.5.1. Er bod cyfle arbennig drwy’r cwricwlwm newydd i ddatblygu cyfundrefn addysg effeithiol, mae pryder mawr ymysg aelodau nad yw’r weledigaeth o ran cymwysterau ac atebolrwydd yn glir. Yn gam neu’n gymwys, ar hyn o bryd mae athrawon uwchradd yn cael eu arfarnu ac yn cael eu cadw’n atebol ar sail canlyniadau. Er mwyn i’n hathrawon Hanes uwchradd fedru wynebu’r newidiadau â hyder, mae angen rhoi arweiniad ar gymwysterau ac atebolrwydd. Cyhuddir athrawon uwchradd yn aml o addysgu at arholiadau, ac mae hynny’n wir, dyna yw realiti’r gyfundrefn ac nid oes fawr o ddewis ond cydymffurfio â’r gyfundrefn honno. Fel Undeb, rydym yn ymwybodol bod newidiadau mawr ar y ffordd – i gymwysterau a’r trefniadau atebolrwydd – ond nid yw’r negeseuon wedi treiddio i lawr y dosbarth.

4.5.2. O gofio’r pwyslais ar arholiadau, pa ryfedd bod y mwyafrif o athrawon Hanes yn hapus i weld newidiadau bychain i unedau manyleb Brydeinig eu natur er mwyn rhoi ‘persbectif Cymreig’. Pa ryfedd y chwaith bod eu haddysgu o flwyddyn 7 ymlaen wedi’i strwythuro fel bod gan y disgyblion y cefndir a chyd-destun cywir er mwyn llwyddo yn yr arholiadau.

4.5.3. Rydym o’r farn y bydd penderfyniadau ac eglurder buan ynghylch cymwysterau yn gallu dylanwadu’n bositif ar barodrwydd athrawon i fabwysiadu a gweithredu’r persbectif Cymreig – ar yr amod, wrth gwrs, bod y cymwysterau hynny’n gosod y tôn cywir. Byddai rhoi

ymwybyddiaeth glir o'r angen i gyflwyno cefndir a chyd-destun cyn cychwyn ar fanylebau a chyflwyno naratif Hanes Cymru o oed cynnar iawn yn fuddiol.

4.5.4. Wrth lunio cymwysterau fyddai'n sicrhau bod ysbryd y cwricwlwm yn cael ei wireddu, byddai UCAC yn cefnogi ystyriaethau tebyg i'r hyn sydd yn eu lle yn Yr Alban. Yno mae modd dewis meysydd astudiaeth ar gyfer cymhwyster hanes yn yr 'Higher' o ddau faes. Mae yna bapur ar Hanes Prydeinig, Ewropeaidd neu Gydwladol (hefo lle creiddiol i'r Alban yn yr astudiaethau lle bo'n addas), ac mae yna bapur ar Hanes Yr Alban (yn ogystal ag aseiniad).

4.5.5. Er mwyn sicrhau bod pob athro'n hapus i addysgu Hanes Cymru, rhaid wrth raglen hyfforddiant lawn, fel y cyfeiriwyd ati eisoes. Lle bo rhai ag arbenigedd yr hanesydd, prin yw eu profiad o hanes a diwylliant Cymru, tra bo eraill wedi'u trwytho yn ein hanes a diwylliant, ond nid oes ganddynt arbenigedd yr hanesydd. Rhaid sicrhau fod pob athro'n derbyn y newid ac yn teimlo'r ddyletswydd addysgiadol i addysgu'r hanes a'r diwylliant.

**5. Sut y gallai'r broses o addysgu hanes a diwylliant Cymru gael ei heffeithio gan y cam o roi mwy o ddisgresiwn i ysgolion benderfynu ar gynnwys yr hyn a addysgir?**

5.1. Barn UCAC yw y gall disgresiwn fod yn fuddiol, gan ehangu'r cyfleoedd, ond bod peryg amlwg ynghlwm â hyn. Mewn rhai achosion, gallwn gael sefyllfa lle mai prin fydd y pwyslais ar hanes a diwylliant Cymru ac y gwelwn 'tocenistiaeth' amlwg, fel y cyfeiriwyd ati eisoes. Dyna pam fod angen sicrhau hyfforddiant lawn a bod rhoi cyfundrefn cymwysterau yn ei le yn fuan, fel yr amlinellir yn 3.5, yn allweddol.

5.2. Ar lefel ysgol, gall disgresiwn beryglu datblygiad crefft yr Hanesydd (a'r Daearyddwr, a'r arbenigwr Astudiaethau Crefyddol, ymysg eraill), gall hefyd beryglu'r pwyslais ar addysgu hanes a diwylliant. Mae'r cwricwlwm Dyniaethau'n eang, a rhestr o ddisgwyliadau hirfaith, fydd yn sicr yn rhoi her i athro lunio cynllun gwaith fydd yn cwmpasu'r holl anghenion.

5.3. Bydd modd dehongli'r cwricwlwm a'i anghenion mewn sawl gwahanol ffordd. Rydym eisoes yn gweld fod un Darparwr Addysg Gychwynnol Athrawon yn tybio y gallent sicrhau anghenion Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau i'r athrawon dan hyfforddiant yn y sector Cynradd a'r sector Uwchradd drwy gyflogi un darlithydd llawn amser, yn arbenigo mewn Astudiaethau Crefyddol. Mae peryg mawr y bydd rhai nad ydynt yn arbenigwyr yn gweld fod modd torri ac effeithioli drwy wneud penderfyniadau tebyg.

5.4. Rydym eisoes wedi gweld awdurdodau ac ysgolion yn ail-strwythuro staffio mewn ysgolion fel bod eu strwythurau'n adlewyrchu'r cwricwlwm newydd. Nid oes ystyriaeth deg yn cael ei rhoi i anghenion arbenigwyr pwnc, nac i gymwysterau a'r ffaith nad yw'r rheiny yn newid am saith mlynedd. Mae hyn yn adlewyrchu'n gryf fod modd dehongli pethau'n wahanol, ac y bydd pob Pennaeth yn dehongli anghenion y cwricwlwm yn wahanol. Mae hyn yn bwydo'r ansicrwydd mawr sydd ymysg athrawon uwchradd arbenigol. A ydym yn edrych ar sefyllfa lle bydd amserlenni'n newid a chwricwlwm gwahanol mewn ysgolion gan ddileu arbenigedd Hanes, Daearyddiaeth ayyb? Neu a fydd cyfle i edrych yn fwy thematig a chyfuno arbenigedd pynciau e.e. unedau ar Ddiwydiannu Cymru, Y Rhyfel Byd Cyntaf a Chymru?

5.5. Ymhellach, mae gofid bod Penaethiaid am weld y disgresiwn yma fel ffordd o arbed arian ac o ddileu swyddi. Yn sicr, mae tystiolaeth gan UCAC fod ystyriaethau ariannol wedi bod yn ganolog wrth ddileu swyddi penaethiaid adran Hanes, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol.

5.6. Gall disgresiwn gynnig her o ran sicrhau cysondeb safonau/cyrhaeddiad o gofio fod yr hyn a addysgir yn amrywio o un ysgol i'r llall. Efallai fod hyn yn gyfle i ail edrych ar y gyfundrefn safonau fel ei fod yn fwy addas i anghenion byd addysg.

5.7. Gall disgresiwn ganiatáu i athro roi blaenoriaeth i ddiddordebau personol. Gall hyn gael ei weld yn gadarnhaol ac yn negyddol, wrth gwrs.

5.8. Bydd symud ysgol/ardal yn profi’n her i athro cydwybodol, gan fydd gofyn iddynt ail ystyried cynlluniau gwaith yn llwyr.



01970 639950 | ucac@ucac.cymru | www.ucac.cymru

**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru



Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

CYMDEITHAS
**OWAIN GLYNDŴR**
SOCIETY

*Llywydd / President*
Adrien Jones

*Is-Lywydd / Vice-President*
Siân Phillips

*Is-Lywydd / Vice-President*
Bryn Terfel



Thursday, June 6th, 2019

# Written Submission
## - to the Culture, Welsh Language and Communication Committee

*** Will the new Curriculum for Wales enhance opportunities for Welsh history and culture to be taught from a Welsh perspective?**

The opportunities for teaching from a Welsh perspective could well be enhanced by the new curriculum - but only if ESTYN are tasked with looking for evidence that it is consistently being taught, and that WJEC exam questions eventually test for it. There may well be the opportunity for some schools to pay 'lip service' to this instead of embedding it as a basis for their schemes of work, however.

*** What opportunities will the new curriculum offer for the teaching of Welsh local and national history?**

The aim is for local topics to be studied, which could then lead to discussions about regional, national, British, European or even World matters. This will allow pupils to explore their local history, as well as the national history of Wales, but it will very much depend on the ability of their teachers to develop suitable schemes of work. Unfortunately, we have not yet had access to any exemplar materials for this, but we assume that the Humanities Pioneer Schools have already provided guidance for their partner schools. If resources are not readily available then teachers may well revert to using their 'tried and tested' materials, and opportunities for studying topics on local medieval history, for example, may be lost.

*** In what way, if any, will teachers be constrained in the teaching of Welsh history and culture?**

As mentioned above, teachers may well be constrained by a lack of suitable resources - but also, due to the lack of prescription in the new curriculum, schools will most probably study different topics to those in other parts of the country simply due to their location. That is, pupils living in the valleys of South Wales may well end up with an in-depth knowledge of the coal industry, but will probably have very little knowledge of the slate industry in Gwynedd; the Epynt clearances in Powys; the Rebecca Riots in West Wales; etc.

*** How might the teaching of Welsh history and culture be affected by the greater discretion for schools in the content of what is taught?**

The new curriculum aims to be non-prescriptive and to focus on "fundamentals". For the past three years, however, the Society's main concern has been that teachers and schools would be able to by-pass historical topics or periods if they so wished. For this reason, we are keen to have some 'general prescription of study' so that topics from each of the main periods are covered. For example, topics could be studied from: Celtic and Roman Wales; The Age of the Saints; The Age of the Princes; The Tudors and Stuarts; The Industrial Revolution; and the 20th century. We also recommend the use of timelines so that pupils can place events in a chronological order more easily. The draft curriculum does refer to 'chronological maps' but we strongly suggest that the topics are also taught in a chronological order wherever possible. We feel that the new curriculum should have a list of 'must haves', i.e. topics that all the pupils in the country need to be taught so that they have a rounded knowledge of the events which have formed modern-day Cymru. Teachers must then be supported in developing appropriate schemes of work through the availability of suitable bilingual and multimedia resources.

Gareth Jones (Secretary)

**DYFODOL I'R IAITH**

**SYLWADAU AR GYFER:**

## Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu:

## Trafodaeth ar Gwricwlwm drafft newydd arfaethedig Llywodraeth Cymru

## Mehefin 26ain, 2019

**Mehefin 2019**

**Cyswllt:**

**Ruth Richards**

**Prif Weithredwr**

[redacted]

**Cynrychiolir Dyfodol i'r Iaith ar Fehefin 26ain gan Wyn Thomas, sy'n Aeolod o'r Bwrdd Rheoli**

**Dyfodol i'r Iaith**

Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno ein sylwadau i'r Pwyllgor Diwydiant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

**Sylwadau Cefndir**

Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno sylwadau ar le Hanes a diwylliant Cymru yn y Cwricwlwm newydd. Mae croeso i fwriad Llywodraeth Cymru ddysgu Cymraeg ar hyd un continwwm ac i osod y Gymraeg mewn cyd-destun ehangach trwy annog dysgu ieithoedd eraill yn y sector cynradd. 'Rydym hefyd yn falch o ymrwymiad Cymraeg 2050 i sicrhau miliwn o siardwyr y Gymraeg erbyn canol y ganrif. Er mwyn sicrhau hynny, mae'n hanfodol creu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan annatod o'n treftadaeth a gwneud hynny mewn modd ystyrlon yn y Cwricwlwm Hanes.

Mae'r Cwricwlwm arfaethedig yn seiliedig ar y pedwar Diben a'r Hyn sydd yn Bwysig ym mhob maes. Tra bod y pedwar Diben yn rhoi canllawiau cyffredinol defnyddiol, mae lle i'w dehongli mewn mwy nag un ffordd. Gall hyn arwain at drafodaethau bywiog neu anghydweld ymhlith arweinwyr y meysydd sydd yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Bydd yr her yn arbennig o astrus yn y Dyniaethau gyda Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol yn elfennau ychwanegol i'w hystyried. Mae datblygiadau economaidd a natur y gymdeithas mewn unrhyw gyfnod, yn rhan annatod o astudio Hanes. Gall cynnwys yr elfennau ychwanegol yn statudol, gael effaith ar yr amser a ganiateir i ddysgu Hanes ym Maes y Dyniaethau.

Mae'r pum blaenoriaeth a elwir Hyn sydd yn Bwysig yn fwy manwl ac yn nodi sgiliau hanfodol wrth astudio Hanes megis bod modd dehongli digwyddiadau mewn mwy nag un ffordd. Ond mae'n drueni bod ambell Hyn sydd yn Bwysig, ac yn arbennig 3 a 4, yn cyfeirio at gymdeithasau cyfoes. Rhan hanfodol o ddysgu Hanes yn effeithiol yw dangos sut wnaeth y byd naturiol ddatblygu yn fwy "amrywiol a deinamig" a sut oedd cymdeithasau' gorffennol yn llai "cymhleth ac amrywiol". Nid yw dechrau o'r presennol yn addas wrth ddysgu Hanes.

Felly, mae croeso i'r cwestiynau sydd yn cael eu gofyn gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Mae llawer o dystiolaeth bod angen datblygiad sylweddol ar Hanes Cymru yn ein hysgolion:

1. Adroddiad Dr Elin Jones i Lywodraeth Cymru yn 2013 yn nodi'n glir bod llawer o'r hanes a ddysgir yn ein hysgolion yn cael ei wneud o safbwynt Lloegr. Rhestrir Dr

Jones fel un o'r arbenigwyr gyfrannodd i lunio'r Cwricwlwm Dyniaethau. Mae'n hysbys nad yw hi yn hapus gyda'r argymhellion presennol.

2. Ychydig o flynyddoedd yn ôl cyflwynodd Huw Edwards ei gyfres "The Story of Wales", Bu rhaglen drafod ar ddiwedd y gyfres. 'Roedd sawl gwyliwr wedi cysylltu i ddweud eu bod wedi dysgu am ddigwyddiadau yn ein hanes, am y tro cyntaf, wrth wylio'r rhaglen. Gwnaeth dau fyfyriwr Blynyddoedd 12/13 o ysgol uwchradd yn Sir Gaerfyrddin, gydnabod eu bod yn dysgu mwy am Hanes Cymru yn y gwersi Cymraeg na'r gwersi Hanes.

3. Yng Ngorffennaf 2018, 'roedd y Senedd yn trafod cyhoeddusrwydd i leoliadau hanesyddol o bwys yng Nghymru, ac yn benodol Llys Rhosyr, un o gartrefi tywysogion Gwynedd. Yn ystod y drafodaeth ar ddarparu taflenni gwybodaeth ar gestyll a safleoedd o bwys yn gysylltiedig â'r tywysogion , mi wnaeth y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones, ddweud:
*" A part of our history that I think has been neglected actually over the years because we know that Welsh History was not well taught in schools for many, many years and in some ways as a nation we are not well aware of our own history"*
Rhoddodd groeso i bob ymdrech fyddai'n gwella dealltwriaeth o'r Canol Oesoedd.

4. Arolwg cyhoeddus y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ystod haf 2018. Yr ymateb mwyaf sylweddol, ymhlith y 2,500 gymerodd ran yn yr arolwg, oedd yr angen i "addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion. Mae'r ymateb yn ategu sylwadau'r gwylwyr i raglen Huw Edwards "The Story of Wales".

5. Yng nghyd-destun amcanion Cymraeg 2050, byddwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyd weu hanes yr iaith Gymraeg â hanes y genedl.

- **A fydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i addysgu hanes a diwylliant Cymru o safbwynt Cymru?**

Ceir ymgais gydwybodol i geisio codi proffil Hanes Lleol a Hanes Cymru. Mae sôn am ddatblygu ymwybyddiaeth o dreftadaeth , *cynefin,* a Chymru yn ogystal â gweddill y byd. Sonnir am gydbwysedd rhwng hanes lleol, hanes Cymru/Prydain ac astudiaethau byd eang. Mae'r pump "Hyn sydd yn Bwysig" yn cyfeirio'n gyson at gamu o'r lleol at bersbectif Cymreig ac yna edrych y tu hwnt ar weddill Prydain a'r Byd. Cytunwn yn gryf na ddylid cyfyngu dysgu Hanes i Hanes Cymru yn benodol. Yn wir, o ddysgu'r pwnc yn gronolegol gywir, gwelir nad oes modd gwneud hynny a bod cysylltiadau rhyngwladol yn mynd yn ôl i 4,000 O. C. Yn Oes y Saint, cyfnod sydd heb gael sylw teilwng trwyddi draw, cafwyd olion llestri o Bordeaux, Athen ac Alexandria nepell o ganolfan addysgol bwysig yr abad Illtud yn Llanilltud Fawr. Cytunwn felly bod angen gosod cyd-destun cynhwysfawr, rhyngwladol ac allgyrchol i Hanes Cymru.

Dymunwn bwysleisio fodd bynnag nad yw Hanes Cymru wedi derbyn sylw digonol yn y gorffennol yn ein cyfundrefn addysg ( gweler ein pwyntiau 1-5 uchod ). Mae angen i'r

Cwricwlwm arfaethedig wella'r sefyllfa ac nid yw "cynnig cyfle" yn ddigonol. Cafwyd cyfleoedd niferus i ddysgu Hanes Cymru yn y gorffennol, ond fel gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones gyfaddef, ni fanteisiwyd arnynt.

- **Pa gyfleoedd fydd y cwricwlwm newydd yn eu cynnig ar gyfer addysgu hanes lleol a chenedlaethol Cymru?**

Mae croeso gofalus i'r pwyslais ar y cysyniad o "gynefin". Mae adroddiad Dr Elin Jones yn pwysleisio'r angen i gychwyn wrth eich traed ac yna camu i hanes Cymru, gweddill Prydain, Ewrop a'r byd tu hwnt. Yr hanes sydd o'u cwmpas sydd hawsaf i blant ifanc ei ddirnad. Ond bydd angen gofal wrth osod yr hanes mewn cyd-destun hanesyddol a'r syniad o amser. Dylai pob dosbarth gael Llinell Amser gan nodi'r prif ddigwyddiadau lleol, cenedlaethol, gweddill Prydain, Ewrop a'r Byd arni. Felly, byddai nodi sant lleol yn cael ei osod yn y chweched a'r seithfed ganrif tra byddai gwaith glo lleol yn cael ei osod yn y ddeunawfed neu'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ni ddylai dysgu hanes lleol gael ei ystyried fel cyfraniad digonol gan ysgol i ddysgu hanes Cymru. Bydd angen gosod yr elfen leol mewn cyd-destun Cymreig ac efallai cyd-destun ehangach. Wedi cyfnod Illtud, ciliodd nifer o'r saint i lecynnau tawel os nad dirgel. Byddai hyn yn cynnig cyfle arbennig i sôn am "gynefin" gan fod cymaint o leoedd yng Nghymru wedi eu henwi ar ôl sant. Ond yn yr un cyfnod ôl Rufeinig, 'roedd Brythoniaid mewn rhannau eraill o ynysoedd Prydain. Yn Ystrad Clud/Strathclyde, ysgrifennwyd y farddoniaeth Gymraeg gyntaf tua 600 O. C. a thiriogaeth Frythonaidd oedd yn Nyfnaint a Chernyw/Dumnonia. Gall hanes lleol arwain at gyfle i ystyried sefyllfaoedd tebyg neu gyfoed y tu hwnt i'r *cynefin.*

- **Ym mha ffordd, os o gwbl, y bydd athrawon yn cael eu cyfyngu wrth addysgu hanes a diwylliant Cymru?**

Nid oes angen i'r pwyslais newydd ar hanes Cymru, sydd yn angenrheidiol oherwydd diffygion y cyfundrefnau blaenorol, gyfyngu ar athrawon o gwbl. O'r cyfnod cyn hanesyddol, trwy gyfnod y Rhufeiniaid ac Oes y Saint a nodwyd uchod, 'roedd cysylltiadau gyda Chymru â diwylliannau y tu hwnt i Glawdd Offa. Effeithiodd y Gwyddelod, Sacsoniaid a'r Llychlynwyr ar Gymru wedi ymadawiad y Rhufeiniaid. Gellir cymharu effaith sylweddol y Llychlynwyr ar yr Alban a Dwyrain Lloegr gyda'r dylanwad llai ar Gymru oherwydd ffactorau daearyddol.

Ni fyddai trafod Tywysogion Cymru yn cyfyngu ar y cyfle i fanylu ar ymosodiadau'r Normaniaid/ Saeson. Yn wir, byddai angen sôn am dwf y tywysogaethau yn Lloegr cyn dyfodiad y Normaniaid a'u goresgyniad gan y milwyr o ogledd Ffrainc, oedd hefyd yn concro rhannau eraill o Ewrop mor bell i ffwrdd â Sicily. Nid oes modd anwybyddu'r Drefn Ffiwdal a phwysigrwydd yr Eglwys yn ystod y Canol Oesoedd. Ond tanlinellodd Carwyn Jones y diffyg gwybodaeth sydd gennym am y cyfnod ac mae'n rhaid i ddisgyblion Cymru ddysgu am Owain Gwynedd, yr Arglwydd Rhys y ddau Lywelyn ac Owain Glyndŵr, o leiaf. Mae'r tywysogion yn enghraifft o'r frwydr dros hawliau Cymru, ond 'roeddent yn barod iawn i gysylltu gyda pobl ddylanwadol o'r tu hwnt i'r wlad. Siwan, merch anghyfreithlon y Brenin

John oedd gwraig Llywelyn Fawr ac 'roedd y Mortimers a'r Percies yn gynghreiriaid i Owain Glyndŵr.

Mae'r cysylltiadau â Lloegr yn tynhau wedi Deddf Uno 1536 – *"That his said Dominion of Wales shall be, stand and continue forever henceforth incorporated, united and annexed to and with his Realm of England"* oedd geiriau'r ddeddf. Mae hyn yn drobwynt yn ein hanes, ac o ddysgu'r pwnc yn gronolegol gywir, byddai disgyblion yn dod i ddeall bod Oes y Tywysogion ar ben. Tyrrodd nifer o Gymry blaenllaw i Lundain adeg y Tuduriaid a chryfhaodd y berthynas rhwng Cymru a Lloegr. Wrth i forwyr ddarganfod gwledydd oedd yn newydd iddynt, aeth Cymry yn ogystal ag Albanwyr a Saeson i grwydro ymhellach. 'Roedd Cymry yn berchnogion caethweision ond hefyd yn flaengar yn natblygiad y diwydiant glo yn yr Unol Daleithiau. Enwyd Hughesovka [Donetsk heddiw] ar ôl y Cymro sefydlodd y gwaith mewn tref sydd bellach yn rhan o Wcráin. Yn 1916 daeth yr hogyn a fagwyd yn Llanystumdwy yn Brif Weinidog ar yr ymerodraeth gryfaf yn y byd.

Gosod ein hanes a'n diwylliant yn ei gyd-destun ar hyd y canrifoedd sydd ei angen. O'i ddysgu'n gywir ni ddylai addysgu ein hanes a'n diwylliant gyfyngu ar athrawon ond yn hytrach gynnig cyfle i gyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o'n hanes a'n diwylliant unigryw; a hynny mewn mwy nag un cyd-destun.

- **Sut y gallai'r broses o addysgu hanes a diwylliant Cymru gael ei heffeithio gan y cam o roi mwy o ddisgresiwn i ysgolion benderfynu ar gynnwys yr hyn a addysgir?**

Credwn fod hyn yn berygl gwirioneddol.

*"while the Programme of Study for History suggests topics for teaching, the curriculum is non-prescriptive, allowing each school the flexibility to choose the detailed topics, the balance of local and Welsh history..... this in turn is meant to allow teachers to create a scheme of work which is tailored to their interests"* oedd ateb dderbyniwyd ar ran yr Ysgrifennydd Addysg gan fudiad hanes.

Mae'r ymdrech i leihau pwysau gwaith y proffesiwn i'w groesawu ond mae sawl maes heblaw'r cwricwlwm ble medrid fod wedi gwneud hynny. Mae'r dyfyniad uchod yn codi nifer o broblemau, yn arbennig o ran dysgu Hanes.

Mae'n tanseilio honiad yr Ysgrifennydd Addysg wrth sôn am "*Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl"*. Os gall pob ysgol unigol benderfynu ar gynnwys yr hyn sydd i'w ddysgu, go brin bydd arlliw cenedlaethol arno. Dylai disgyblion adael ysgolion Cymru gyda chorff cyffredin o wybodaeth am y wlad ble cawsant eu haddysgu, pa mor fras bynnag fo hynny oherwydd cyfyngiadau amser. Pen draw anffodus posibl yr athroniaeth bresennol yw mai ond plant Hen Dŷ Gwyn ar Daf neu Sir Gaerfyrddin fydd yn dysgu am ddeddfau rhyfeddol Hywel Dda a dim ond disgyblion Casnewydd, Blaenau Gwent a Llanidloes am y Siartwyr.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn yr egwyddor o ragnodi. Penderfynwyd bydd y Gymraeg yn cael ei ddysgu fel un pwnc yn y dyfodol. Mae croeso i'r penderfyniad gan

Dyfodol i'r Iaith. Mae'r pedwar Diben a hefyd yr Hyn sydd yn Bwysig wedi eu rhagnodi ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Rhaid ymestyn yr egwyddor i Hanes a chlustnodi 'r digwyddiadau allweddol dylai pob disgybl wybod amdanynt cyn gorffen astudio'r pwnc. Mae modd sicrhau cydbwysedd rhwng rhagnodi'r digwyddiadau pwysicaf y dylasai pob disgybl wybod amdanynt a rhyddid proffesiynol yr athrawon. Yn ei gampwaith "Hanes Cymru" mae John Davies yn nodi mai ar ôl Dewi a Theilo yr enwyd y mwyaf o eglwysi yng Nghymru. Felly, byddai'n ofynnol i bob disgybl dysgu am y ddau sant yma. Ond byddai rhwydd hynt iddynt gyfeirio at eraill, efallai un o'u cynefin.

Cwricwlwm bratiog a di- gyswllt sydd yn cael ei gynnig ar gyfer Hanes ar hyn o bryd ac nid yw'n dderbyniol.

**Y Cwricwlwm a'r Gymraeg:**

Mudiad i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yw Dyfodol i'r Iaith, a manteisiwn ar y cyfle hwn i ymhelaethu ar ein hawydd i gyfrannu at y drafodaeth hon ar le Hanes yn y cwricwlwm newydd.

Ar ddechrau'r adroddiad hwn, datganwyd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i Hanes y genedl. Yng nghyd-destun amcanion Cymraeg 2050, credwn fod hyn yn gwbl hanfodol, a bod codi ymwybyddiaeth eang o'r Gymraeg a'i phwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol yn gyfraniad sylfaenol tuag at y nod uchelgeisiol hwn.

Ar lefel cwbl ymarferol, rhaid datgan bod y rhan fwyaf o'n hanes wedi digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y pumed a'r chweched ganrif esblygodd y Frythoneg i fod yn Gymraeg cynnar. Yn y ddegfed ganrif, Cymraeg oedd iaith Deddfau Hywel Dda oedd yn disgrifio'r gymdeithas ar y pryd ac yn tanlinellu lle gwragedd yn y gymdeithas. Hyd yn oed wedi'r Ddeddf Uno, mynnodd Elizabeth 1af bod Beibl Cymraeg ym mhob eglwys yng Nghymru. Nid oedd y werin yn deall Saesneg. Cymraeg oedd iaith emynau William Williams ac Ann Griffiths wrth iddynt geisio achub eneidiau'r Cymry yn y ddeunawfed ganrif. Yn yr un cyfnod, heblaw am dde Sir Benfro, Cymraeg oedd iaith ysgolion rhyfeddol Griffith Jones ddenodd sylw Catrin Fawr o Rwsia ar y pryd, ac UNESCO yn yr1950au. Cymraeg oedd iaith toreth o gylchgronau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, iaith nifer o gyfrinfeydd y Siartwyr ac iaith 70% o drigolion Merthyr yn 1891. Sefyllfa gymharol newydd yn ein hanes yw pobl yn methu siarad Cymraeg ac mi ddylai disgyblion Cymru ddeall hynny.

Mae Dyfodol i'r Iaith yn canmol bwriad Llywodraeth Cymru wrth iddi osod y nod o sicrhau miliwn o ddefnyddwyr y Gymraeg erbyn 2050. Mae nifer o strategaethau i'w gweithredu er mwyn cyrraedd y nod. Un ohonynt yw sicrhau fod pobl ifanc Cymru yn ymwybodol o'u treftadaeth a pherthnasedd y Gymraeg yn y broses o lunio Hanes a hunaniaeth.

"*For students to acquire a threatened language such as Welsh in an active rather than a passive way , the teaching of the language must generate <u>identity investment</u> – students must take ownership of the language and see it affirming and adding to their identities"* *[*sylwadau a thanlinelliad yr arbenigwr ar ddwyieithrwydd, Jim Cummins yng Nghaerfyrddin 2013]

Felly, mae gwir angen cryfhau safle hanes Cymru a phwysigrwydd y Gymraeg yn yr hanes hynny wrth gyflwyno’r cwricwlwm newydd, fel rhan o’r broses o ddwysau ymwybyddiaeth pobl ifanc Cymru o’u treftadaeth.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ken MacQuarrie

Cyfarwyddwr y Gwledydd a'r Rhanbarthau

BBC

7 Mai 2019

Annwyl Ken,

Dyma gopi i chi o'r llythyrau a rannwyd rhyngof i a Rhodri Talfan Davies ynghylch cynnig y BBC i ofyn i Ofcom ddileu'r angen i gael cynnwys llafar 100 y cant ar gyfer gorsafoedd radio rhwng 07.30 a 08.30 yn ystod yr wythnos.

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu wedi trafod y cynnig hwn, gan gytuno y byddai unrhyw newid i'r gofyniad am gynnwys llafar 100 y cant yn ystod y slot cynnar yn y bore yn gam yn ôl. Mae nifer y gwrandawyr yng Nghymru sy'n gwrando ar ddarllediadau radio'r BBC yn uwch nag unrhyw wlad arall yn y DU.  Dylent ddisgwyl clywed trafodaeth am y digwyddiadau gwleidyddol a chyfoes sy'n llywio eu bywydau.

Er bod yr ymateb gan Mr Davies yn nodi mai'r rheswm dros gymryd y cam hwn yw i ddatganoli'r penderfyniadau hyn i arweinwyr golygyddol, sydd yn y sefyllfa orau i farnu beth sydd fwyaf priodol yn eu rhannau eu hunain o'r DU, a bod dim cynlluniau i BBC Radio Wales na BBC Radio Cymru newid eu ffocws ar newyddion cyfredol yn ystod oriau brig, nid yw hyn wedi lleddfu ein gofidion. Unwaith y bydd y gofyniad am gynnwys llafar 100 y cant ar gyfer y slot hwn yn cael ei ddileu, bydd yn arwain at golli amser penodol yn ystod darllediadau radio sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwybodaeth a thrafodaeth yn hytrach nag adloniant.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn yr un modd i fynegi ein pryderon. Teimlaf yn gryf y byddai unrhyw ostyngiad i gynnwys llafar y slot hwn yn amddifadu pobl Cymru o ddull pwysig o ddeall y penderfyniadau sy'n effeithio fwyaf ar eu bywydau. Ar y sail honno, rwy'n gofyn i BBC Cymru

Wales beidio â bod yn rhan o unrhyw gais i Ofcom yn y dyfodol i amrywio'r gofyniad am gynnwys llafar.

A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi pa waith a wnaed cyn i chi gymeradwyo'r cynnig hwn? Pa asesiad a wnaed o effaith y cynnig hwn ar ddarparu cynnwys newyddion ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau? A gafodd ymgynghoriad ei gynnal ar y cynnig hwn? Yn benodol, a wnewch chi rannu eich asesiad o'r angen am ddileu'r gofyniad am gynnwys llafar 100 y cant yn y slot darlledu hwn a'r canlyniadau posibl?

Gofynnaf ichi ymateb erbyn 31 Mai er mwyn imi allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n rhanddeiliaid am y mater hwn.

Yn gywir,

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

British Broadcasting Corporation 40 Pacific Quay, Glasgow G51 1DA, Scotland Telephone +44 (0) 141 422 6100

BBC Nations and Regions

5 June 2019

Bethan Sayed AM
Chair Culture, Welsh Language and Communications Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Bethan

Thank you for your recent letter about the BBC's Annual Plan. I apologise for the delay in replying. As Rhodri outlined in his response to you, the BBC has set out in the Annual Plan for 2019-2020 some of the areas in which it is considering seeking regulatory changes. These changes are considered to be a significant part of our responsibility to continue to provide value for licence fee payers and develop and evolve services to meet changing audience needs and preferences.

The rationale for the radio amendment is to permit a level of devolved editorial control in different parts of the UK. As I'm sure you'll appreciate, radio stations across the UK cater for very different and diverse audiences. As a result, imposing a 'one size fits all' approach can be restrictive for editors as they strive to best serve their particular audiences.

The removal of the 100% speech requirement in between 0700 and 0830 would - as Rhodri has outlined - give individual radio stations a flexibility at breakfast to respond to the changing patterns of listening in their particular areas of the country.

Turning to Wales, however, I believe Rhodri has been very clear about BBC Wales' plans. Indeed, BBC Radio Wales has this week launched a new all-speech breakfast news programme.

Finally, let me also reassure you that we have committed to engaging with stakeholders across the board on these matters to ensure we take all views into account when developing our proposals.

Yours sincerely

Ken MacQuarrie
Director, BBC Nations & Regions

22 May 2019

Dear Members,

I am contacting every Assembly Member and Welsh Member of Parliament in the hope that they can see the unnecessary application of the law requiring a Licence for Child Performers to brass bands.

The bands present public concerts on stage or in parks which last at most for 2 hours, with a 15 minute break. They play in a brass band competition for about a maximum of 20 minutes and for an Entertainment contest they play for a maximum of 25 minutes. According to the law a child under 16 needs a license to participate in any of the above events and also needs a qualified chaperone. Why?

Very often the young players in the band would be a child of one of the band members and the absurdity of the Act is that the child will still need a chaperone because the parent is disqualified from looking after their child because they are playing in the band even though they are on the stage together!

Another absurd situation is that a child can go into a public house with an adult and that is okay, but if that child plays with a brass band in a rehearsal for a performance and it is taking place in licensed premises where the bar is closed, a Licence is required. Why?

I am the Chairman of a band and we have one child who is just under 16, but will be leaving school at the end of the summer holidays. The licences for children will not be required after June 30th.i.e. in the final year at school. So after June I will be proposing to the band that we do not encourage children to join our band to have the advantage of learning to play percussion or /and a brass instrument because if we are found lacking in any of the stringent rules re licensing of Child Performers, the band could be heavily fined and/or officials of the band could be imprisoned.! We have a priority to safeguard our band officials and I feel that the different way that local councils are interpreting the Act could easily place the band officials in jeopardy.

This is absolutely ridiculous. The whole issue is nonsense and the Act does not make children in bands any safer in any way, but just makes matters a lot more complicated.

Children learning instruments are being penalised when they should be encouraged to join a band and be able to enjoy the musical experience.

This Act has been necessary for the benefit of young professional actors and performers like dancers where they are getting paid and often required to work for hours during the day or evening. I certainly think that legislation is required for these young performers, but to use the Act as an umbrella for children in brass bands has been ill considered, poorly thought out and lacking in knowledge about how brass bands operate.

All bands have Child Safety policies in place and children in bands are probably better protected in a band than they would be in most other places.

I urge you to look at this legislation and to allow brass bands exemption from this legislation, otherwise we will see the demise of youth bands and brass bands in the future.

Sincerely,

[redacted]
Chairman Crosskeys Silver Band

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee



Vaughan Gething AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

29 May 2019

Annwyl Vaughan

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Y Gymraeg mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019**

Yn ei gyfarfod ar 20 Mai, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Rheoliadau uchod.

Mae'r Pwyllgor am gadarnhau'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn ei lythyr atoch, dyddiedig 10 Mai. Rydym yn cydnabod bod yr amserlen i drafod y Rheoliadau hyn yn cydymffurfio â'r rheol "21 diwrnod". Fodd bynnag, rydym yn ategu'r pryder nad yw hyn wedi rhoi digon o amser ar gyfer gwaith craffu ar yr achlysur hwn.

Yn ogystal, mynegodd y Pwyllgor bryder bod y Memorandwm Esboniadol a atodir i'r Rheoliadau wedi'i osod yn Saesneg yn unig ar adeg ein cyfarfod. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Memoranda Esboniadol yn Saesneg yn bennaf, yn unol â Rheol Sefydlog 15.4, ac rydym yn nodi y trefnwyd bod fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol hwn ar gael ers hynny. Fodd bynnag, rydym yn siomedig o hyd oherwydd yr oedi wrth ei lunio ac, yn dilyn hynny, hoffem ofyn am ragor o eglurhad gennych ar bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch cyfieithu dogfennau o'r fath.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

cc: Bethan Sayed AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/L/VG/0479/19

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Mehefin 2019

Annwyl Mick,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Mai.

Rwyf wedi nodi eich pryderon a'ch cefnogaeth i'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (y Pwyllgor Diwylliant) yn ei lythyr i mi dyddiedig 10 Mai. Fe wneuthum ymateb i'r llythyr hwnnw ar 20 Mai, gan gydnabod diddordeb y Pwyllgor Diwylliant yn y diwygiadau a chan gynnig sesiwn friffio dechnegol gyda fy swyddogion i'r Pwyllgor hwnnw. Cynhaliwyd y sesiwn friffio dechnegol honno ar 6 Mehefin. Ni chafwyd yr un math o ddiddordeb yn y diwygiadau blaenorol i'r Rheoliadau hyn, ac rwyf wedi gofyn i fy swyddogion sicrhau yn y dyfodol, os byddant yn ymwneud â'r Gymraeg, ein bod yn rhybuddio'r Pwyllgor Diwylliant ac yn ymgysylltu â hwy yn gynharach yn y broses.

O ran eich pryder ynghylch y ffaith bod y Memorandwm Esboniadol a atodir i'r Rheoliadau wedi ei osod yn Saesneg yn unig, mae'n flin gen i a fy swyddogion am yr oedi a oedd yn golygu nad oedd y fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar gael ar yr un pryd. Mae'n cwympo o dan ein safon uchel arferol ac mae'n edifar gennym os bydd yr amryfusedd hwn yn tynnu sylw oddi ar y buddiannau arwyddocaol y bydd y dyletswyddau hyn yn rhoi i gleifion sy'n derbyn gofal iechyd mewn lleoliadau gofal sylfaenol.
O ran eich pwynt pellach ynglŷn â pholisi Llywodraeth Cymru ynghylch cyfieithu Memoranda Esboniadol, mae swyddogion eisoes wedi trafod y mater hwn gyda swyddogion Comisiwn y Cynulliad ac wedi cytuno mewn egwyddor y byddwn yn cynyddu yn raddol nifer y memoranda esboniadol ar gyfer offerynnau statudol sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad yn Gymraeg. Mae gwaith pellach yn mynd ymlaen ar hyn o bryd i edrych ar arwyddocâd hyn o ran yr amser y bydd ei angen i ddarparu'r ddeddfwriaeth a'r dogfennau ategol sydd i'w gosod gerbron y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol.

Yn fy marn i, mae'r dyletswyddau hyn yn gam sylweddol ymlaen o ran hybu a chefnogi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal sylfaenol. Nid yw contractwyr gofal sylfaenol annibynnol wedi bod yn ddarostyngedig i unrhyw fath o gynlluniau iaith Gymraeg yn y gorffennol, ac rwy'n falch bod y cyrff cynrychioliadol, er

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaetha'r ffaith eu bod wedi codi rhai materion sy'n peri her, wedi cytuno â'n dull ni o weithredu.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

22.05.2019

Bethan Sayed
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

[redacted]

**Amserlen S4C**

Annwyl Bethan

Dim ond gair sydyn yn dilyn y drafodaeth sydd wedi bod heddiw o gwmpas newidiadau i amserlen S4C.

Mae hyn wedi digwydd yn dilyn gwaith ymchwil, oedd yn cynnwys grwpiau ffocws gyda gwylwyr ar draws Cymru. Rydym yn gwrando ar y gynulleidfa ac eisiau cynnig y gwasanaethau y maen nhw am eu gwylio a'u defnyddio. Roeddem yn dal i drafod efo'r BBC ac eraill pan gawsom gyfarfod yn ddiweddar, gyda thrafodaeth ffurfiol i ddigwydd yng nghyfarfod y bwrdd unedol ddydd Iau diwethaf, dyna pam nad oedd yn bosib imi godi'r mater yn ein cyfarfod. Yn y bwrdd, cytunwyd i ddechrau'r gwaith o newid yr amserlen. Rydym wedi bod yn trafod gyda'r cwmnïau perthnasol ers hynny ac roeddem yn bwriadu cyhoeddi'r newidiadau wedi i'r sgyrsiau yma gyda'r sector gael eu cwblhau.

Mae ymrwymiad sylweddol i newyddion gan S4C. Os rhywbeth, bydd mwy, nid llai, o bwyslais ar newyddion wrth fynd ymlaen. Ein bwriad yw ceisio cyrraedd cynulleidfa ehangach efo newyddion a chryfhau'r ddarpariaeth. Yn 2020, bydd prif raglen newyddion y nos yn symud i 7:30 gyda rhaglen hanner awr nos Lun i nos Iau a bwletin byr am 8:55 gyda rhaglen 10 munud ar nos Wener. Gan mai dyma'r amser dywedodd y grwpiau ffocws y byddai yn well ganddynt wylio newyddion, rydym yn hyderus y bydd yn cael croeso gan ein gwylwyr ac y bydd y ddarpariaeth yn ateb y galw.

Fel imi sôn yr wythnos ddiwethaf, mae Hansh bellach yn cynnig darpariaeth newyddion a materion cyfoes i bobl ifanc. Mae dau wedi bod yn cael hyfforddiant gan dîm profiadol ITV Cymru ac yn creu straeon penodol i Hansh – ffurf fer a digidol. Fe soniais ein bod yn recriwtio ar gyfer y ddau hyfforddai nesaf ar y foment fel y bydd y cynllun yma yn parhau. Mae'r defnydd o Hansh yn gryf iawn ac mae'r gwasanaeth yma'n dod â newyddion a materion cyhoeddus at sylw cynulleidfa fyddai ddim yn debygol o ddod at ein newyddion traddodiadol ni ar y brif sgrin. Mae hefyd yn cynnig plwraliaeth llais o fewn darpariaeth newyddion yn y Gymraeg. Rydym yn trafod gydag ITV sut mae esblygu gwasanaeth HANSH i gynnwys mwy o newyddion a materion cyfoes er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a gwahanol. Rydym hefyd yn trafod ac annog newyddion digidol trawslwyfanol efo'r BBC fel bod modd i'n gwylwyr ni dderbyn newyddion tu hwnt i ddarlledu llinol a'r gwasanaeth mwy traddodiadol mae'r BBC wedi bod yn ei ddarparu inni.

Hoffwn dy sicrhau bod ymrwymiad S4C i newyddion yn dal yn gryf ac mai ehangu y gynulleidfa yw bwriad y newidiadau. Rydym wedi trafod efo'r gwylwyr ac yn hyderus y bydd yr amserlen newydd yn cynnig gwasanaeth perthnasol iddyn nhw. Rwy'n hapus iawn i dy ddiweddaru pan fydd datblygiadau ac yn amlwg, cysyllta os bydd angen rhywbeth yn y cyfamser.

Cofion cynnes,



**Owen Evans**
**Prif Weithredwr**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Owen Evans

Prif Weithredwr

S4C

14 Mehefin 2019

Annwyl Owen,

**Newidiadau arfaethedig i amserlen S4C**

Diolch am eich llythyr yn nodi'r newidiadau arfaethedig i amserlen S4C y flwyddyn nesaf. Rwy'n ddiolchgar ichi am egluro cefndir y penderfyniad i symud y prif newyddion gyda'r nos i slot amser cynharach.

Fel y gwyddoch, rwyf wedi mynegi pryder am y cynigion i newid amser presennol y newyddion gyda'r nos, sef 9.00pm. Rwy'n teimlo y bydd y newid yn golygu y bydd llai o gyfle i gael trafodaethau manwl ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl Cymru. Rwy'n teimlo y dylai ein cyfryngau yng Nghymru wneud popeth o fewn eu gallu i atal yr hyn a ddisgrifir yn aml yn 'ddiffyg democrataidd'. Hynny yw, mae cynulleidfaoedd yn y wlad hon yn fwy tebygol o ddarllen newyddion print a gwylio rhaglenni newyddion sy'n berthnasol i'r DU gyfan yn hytrach na chael eu newyddion mewn papurau newydd cenedlaethol a chan ddarlledwyr cenedlaethol. O ganlyniad, mae llai o ddealltwriaeth o'r modd y mae penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau pobl yn cael eu gwneud. Rwy'n pryderu y bydd newid amser y rhaglen newyddion yn golygu y bydd llai o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o faterion sydd o ddiddordeb cenedlaethol.

Yn benodol, credaf y byddai darlledu rhaglen newyddion am 10 munud ar nos Wener yn ei gwneud yn anodd trafod digwyddiadau'r wythnos yn briodol.

Er mwyn helpu aelodau'r Pwyllgor i ddeall y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i'r amserlen, a allwch chi egluro pam yr awgrymwyd symud y newyddion yn y lle cyntaf?

Rydych yn dweud eich bod wedi trafod y materion hyn gyda gwylwyr drwy gyfrwng grŵp ffocws. A allech chi ddweud wrthym sut yr aethoch ati i ddewis aelodau'ch grŵp ffocws ac i gynnal yr ymgynghoriad? A gafodd newyddiadurwyr a thîm cynhyrchu Newyddion 9 eu cynnwys yn yr ymgynghoriad?

Rydych chi'n dweud eich bod 'yn hyderus y bydd yr amserlen newydd yn cynnig gwasanaeth perthnasol iddynt'.  A yw hyn o ganlyniad i sylwadau'r grŵp ffocws? Os felly, a allwch chi rannu canfyddiadau'r grŵp ffocws gyda ni? Os na allwch, a allwch chi egluro pa dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y newid hwn yn yr amserlen yn arwain at ffigurau gwylio uwch.

A oes gennych chi unrhyw gynlluniau i adolygu'r newidiadau i'r amser y darlledir y newyddion? A fyddwch chi'n mesur ffigurau gwylio'r amserlen newydd?

Rydych hefyd yn sôn eich bod yn 'trafod a hyrwyddo newyddion digidol aml-lwyfan gyda'r BBC, fel y gall ein gwylwyr gael newyddion y tu hwnt i gyfyngiadau darlledu llinol a'r gwasanaeth mwy traddodiadol y mae'r BBC wedi bod yn ei ddarparu.' Hoffwn wybod pa mor awyddus yw'ch gwylwyr i gael eich newyddion yn ddigidol yn hytrach na thrwy raglenni y byddwch yn eu darlledu.

Rwy'n falch o glywed bod 'ymrwymiad S4C i newyddion yn parhau i fod yn gadarn", a deallaf mai nod y newidiadau hyn yw ehangu'r gynulleidfa. Fodd bynnag, rwy'n poeni y gallai hyn arwain at lai o oriau o ddarlledu newyddion ac y gallai hyn danseilio'r dasg hollbwysig o helpu pobl i ddeall y

penderfyniadau sy’n dylanwadu ar faterion gwleidyddol a chymdeithasol Cymru.

Yn gywir,



Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

20.06.19

Bethan Sayed AC
[redacted]

**Newidiadau Arfaethedig i Amserlen S4C**

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr diweddaraf ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i amserlen S4C. Rwy'n gwerthfawrogi eich diddordeb yng ngwaith y sianel, a'r pwysigrwydd rydych chi'n amlwg yn ei weld yn y gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu.

Hoffwn ategu unwaith eto bod y gwasanaeth newyddion a ddarperir gan BBC Cymru yn hollbwysig i ni, ac yn rhan hanfodol o isadeiledd S4C. Datblygu'r gwasanaeth yw ein bwriad yn hytrach na chyfyngu arno.
Fel rwyf wedi esbonio, fe wnaed y penderfyniad i symud Newyddion S4C i 7.30 o nos Lun i nos Wener wrth i ni gynnal adolygiad manwl o'r amserlen yn ei chyfanrwydd. Defnyddiwyd Panel Cyfryngau Cymru (TRP) i gynnal arolwg meintiol ym mis Chwefror 2019. Roedd yr ymchwil hynny yn awgrymu y byddai rhaglenni awr o hyd yn y slot 9 o'r gloch yn apelio mwy at fwyafrif y gynulleidfa. Fe wnaed gwaith ansoddol hefyd (gweithdai ymchwil) gan gwmni Beaufort Research. Rhoddwyd 6 amserlen wahanol i'r cyfranwyr, ac roedd y mwyafrif yn ffafrio yr un gyda Newyddion am 7.30pm.

Bu'r newidiadau arfaethedig i'r amserlen yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd cyson mae ein Cyfarwyddwr Cynnwys yn cael gyda'r BBC. Bu ein Comisiynydd Newyddion a Materion Cyfoes, hefyd yn cwrdd gyda thîm Newyddion 9, ac yn holi eu barn am nifer o agweddau o'r gwasanaeth gan gynnwys yr amser darlledu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau yna i gyd wrth i ni benderfynu ar yr amserlen.

Hoffwn eich sicrhau nad yw'r newid amser yn ei hun yn mynd i arwain at lai o amser i drafod. I'r gwrthwyneb, wrth symud ynghynt yn y noson rydym ni'n gweld cyfle i'r rhaglen gynnwys mwy o gyfweliadau byw, a thrwy hynny i fedru craffu ar bolisïau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar ein gwylwyr.

Mae'n amhosib bod yn sicr pa effaith gaiff unrhyw newidiadau i'r amserlen ar ein ffigurau gwylio yn eu cyfanrwydd.  Mae sawl ffordd o'u mesur; niferoedd y gwylwyr i raglenni unigol, oriau a wyliwyd a chyrhaeddiad.  Ond mae'n rhagolygon mewnol ni yn ein gwneud ni'n ffyddiog y bydd y newidiadau yn arwain at gynnydd.

Yn yr un modd, ni allwn ragweld i sicrwydd beth fydd effaith y newid amser ar niferoedd gwylwyr y brif raglen newyddion. Ond rydyn ni wrth gwrs yn awyddus i'n gwasanaeth gael ei weld gan gynifer a phosib, ac am y rheswm hynny rydyn ni wedi rhoi Newyddion S4C yn fwriadol ynghanol yr amserlen, a rhwng dwy o'n cyfresi mwyaf poblogaidd, sef Heno a Phobol y Cwm.

Byddwn hefyd yn craffu ar gynnwys ac arddull y rhaglen newyddion er mwyn sicrhau bod BBC Cymru yn darparu gwasanaeth o'r safon uchaf. Rwy'n siwr y byddech yn cytuno mai nid mewn munudau yn unig mae mesur gwerth gwasanaeth, ond bod angen sicrhau hefyd bod y rhaglen yn arddel y safonau newyddiadurol uchaf posib.

Rydych chi hefyd wedi codi pryder am hyd y rhaglen ar nos Wener. Fel nodwyd eisoes, mae’n rhaid i ni wrth gwrs i edrych ar yr amserlen yn ei chyfanrwydd. Mae darlledu gemau byw o Uwch-gynghrair Bel-droed Cymru yn bwysig i ni fel darlledwr cyhoeddus yng Nghymru. Ond fel gyda unrhyw chwaraeon byw, rydyn ni’n gorfod gweithio mewn partneriaeth gyda threfnwyr y gystadleuaeth i sicrhau bod gemau a’u hamseroedd yn addas i gefnogwyr a gwylwyr teledu. Yn draddodiadol, roedd y gemau nos yma yn dechrau am 7.45, ond wedi trafodaeth gyda Chymdeithas Bel-droed Cymru mae nhw wedi cytuno i symud amseroedd y gemau i 8 yh. Rwy’n falch o fedru cadarnhau felly y byddwn ni nawr yn medru cael rhaglen newyddion 25 munud pan fo pêl-droed byw ar nos Wener, a phan na fydd gem, bydd y rhaglen newyddion ar nos Wener yn hanner awr.

Yn yr amserlen newydd bydd y newyddion hefyd yn symud i slot mwy cyson a mwy blaenllaw ar benwythnosau, sef 7.20. Rydyn ni hefyd yn trafod y posibilrwydd gyda’r BBC o ymestyn rhaglen nos Sadwrn i 15 munud.

Mae eich cwestiwn olaf yn ymwneud a’n huchelgais digidol. Fel darlledwr cyhoeddus mae dyletswydd arnom ni i symud gyda'r oes, a darparu'r gwasanaeth mae'r gynulleidfa yn ei chwennych. Rydyn ni eisoes wedi cynyddu ein darpariaeth ddigidol mewn meysydd eraill fel adloniant ysgafn, a materion cyfoes. Y bwlch mawr yn ein darpariaeth ddigidol yw'r gwasanaeth newyddion. Yn eu hadroddiad blynyddol gyhoeddwyd wythnos ddiwethaf fe wnaeth Channel 4 amlinellu yr her yma iddynt hwythau. Fe wnaeth y nifer sy'n gwylio Channel 4 News ostwng 9% yn 2018, ac roedden nhw’n nodi mai un o'r rhesymau am hynny yw'r cynnydd yn y niferoedd sy'n derbyn eu newyddion ar-lein. Mae nhw ar yr un adeg wedi gweld cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n gwylio eu cynnwys nhw ar YouTube, yn enwedig ymhlith pobol ifanc.

Does dim amheuaeth felly bod y gynulleidfa eisoes yn derbyn ei newyddion yn ddigidol o ffynonellau eraill. Er mwyn parhau yn ddarlledwr cyhoeddus perthnasol yn yr iaith Gymraeg, mae dyletswydd arnom ni hefyd i symud i'r cyfeiriad yma. Nid gwasanaeth i ddisodli y newyddion teledu llinol fyddai hwn, ond gwasanaeth fyddai’n ychwanegiad iddo, ac yn caniatáu i’r gynulleidfa dderbyn ei newyddion fel mae’n torri. Ein gobaith fyddai cynnig gwasanaeth mwy eang fel rydym eisoes wedi cychwyn ei gynnig ar Hansh drwy bartneriaeth hyfforddi efo ITV Cymru sy’n darparu cynnwys materion cyfoes digidol i’n cynulleidfa.

Wrth gwrs rydym yn adolygu perfformiad yr amserlen yn gyson, gyda sylw penodol yn cael ei roi i safon y rhaglenni, niferoedd y gwylwyr ac adborth gan wylwyr a rhanddeiliaid. Gallaf eich sicrhau y byddwn ni yn craffu yr un mor ofalus ar berfformiad yr amserlen newydd.

Yn gywir,

Owen Evans
Prif Weithredwr S4C

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon